Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Meddygfa Gerddi Victoria
# Dyddiad y gweithgarwch: 24 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 12 Awst 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-790-8

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Gerddi Victoria fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn darparu gofal sylfaenol i drigolion Castell-nedd a'r cyffiniau, yn ogystal â chartrefi gofal lleol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Mae rheolwr presennol y practis yn gadael, ac roedd wrthi'n trosglwyddo i reolwr newydd ar adeg y gwiriad ansawdd. Gwnaethom siarad â rheolwr y practis sy'n gadael a'r rheolwr newydd ar 24 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

1. Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?

2. Pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

3. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?

4. Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/wynebu risg) gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a threfnu apwyntiadau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Polisi rheoli pandemigau

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud ar ddechrau'r pandemig i addasu'r amgylchedd er mwyn sicrhau y gellid cadw pellter cymdeithasol a gwella arferion rheoli heintiau. Ymhlith y rhain roedd creu system un ffordd o amgylch y practis, cyfyngu ar nifer y cleifion y gellid eu derbyn i'r ystafell aros a sychu arwynebau ar ôl eu defnyddio.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr amgylchedd yn cael ei fonitro'n ddyddiol.

Gwelsom fod gan y practis asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith a oedd yn cynnwys amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyfarpar, cyfleusterau, diogelwch tân ac adeiladau. Nodwyd camau gweithredu o asesiadau risg blaenorol, ac roedd adolygiad o ddogfennau a gwiriadau amgylcheddol yn amlwg. Gwelsom hefyd fod gan y practis "ardal goch"[1] ddynodedig i ynysu cleifion â symptomau COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod arwyddion wedi'u gosod o amgylch y practis er mwyn helpu'r cleifion gyda'r system un ffordd. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod o amgylch y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Gallai cleifion ofyn am ymgynghoriad drwy eConsult[2] neu dros y ffôn. Pe bai angen clinigol, byddai'r claf yn cael ei wahodd i apwyntiad yn y practis. Dywedwyd wrthym pe na bai claf yn gallu defnyddio eConsult na'r system ffôn, y gallai'r practis fodloni ceisiadau gan gleifion am apwyntiadau wyneb yn wyneb.

[1] Mae ardaloedd coch hefyd yn cyfeirio at ardaloedd dynodedig neu lwybrau cleifion ag achos a gadarnhawyd neu a amheuir o COVID-19.
[2] Ap meddygol yw eConsult a ddatblygwyd i alluogi meddygon teulu i gynnig ymgyngoriadau ar-lein i'w cleifion

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau asesiadau risg unigol yn ymwneud â COVID-19[3] yn rheolaidd, ynghyd ag adolygiad ychwanegol pe bai newid yn eu hiechyd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisi rheoli heintiau
- Polisi rheoli pandemigau
- Polisi glanhau ystafelloedd triniaeth
- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Archwiliad glanhau
- Archwiliad a gwblhawyd gan gontractwyr glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Rhoddwyd y polisi rheoli pandemigau ar waith hefyd er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Nodwyd bod rheolwr y practis yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm drwy e-bost a chyfarfodydd tîm, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i ganllawiau neu arferion.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell "ardal goch" ddynodedig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen. Mae gan yr ystafell ei drws ei hun ac roedd system un ffordd ar waith i atal halogiad ym mhob rhan o'r practis. Roedd y practis wedi agor un ystafell driniaeth i gleifion ar y pryd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant ar reoli heintiau, a oedd yn dangos nad oedd pob aelod

[3] Datblygwyd Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19. Nod yr adnodd yw helpu staff i ddeall a allant o bosibl fod yn wynebu mwy o risg, a'u helpu nhw a'u rheolwr llinell i ddewis y camau gweithredu cywir yn seiliedig ar lefel y risg.

o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Dywedwyd wrthym nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar wisgo[4] a diosg cyfarpar diogelu personol (PPE)[5]. Gan y gallai'r aelodau hyn o'r staff ddod i gysylltiad â'r cyhoedd, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hyfforddi'n ddigonol er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu eu hunain a'r cleifion. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.

Dywedwyd wrthym nad oedd amserlenni na chofnodion glanhau yn cael eu cwblhau nac ar waith ar gyfer pob ardal. Mae glanhau yn rhan allweddol o'r system atal a rheoli heintiau, ac mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith. Cawsom wybod bod y contractwyr glanhau yn cynnal archwiliadau achlysurol i asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod y cwmni wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, ac na chafodd unrhyw feysydd i'w gwella eu nodi yn yr archwiliad hwn.
Ymdriniwyd â'r holl faterion hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Gwnaethom ysgrifennu at y practis yn syth ar ôl y gwiriad ansawdd yn gofyn am ymateb o fewn wythnos, er mwyn sicrhau **yr aed i'r afael â'r materion diogelwch cleifion hyn yn gyflym**. Cawsom sicrwydd gan y practis drwy ei ymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cyflwyno gwiriadau a threfniadau ar gyfer sicrhau hyfforddiant staff.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Cofnodion cyfarfodydd staff
- Hyfforddiant staff
- Archwiliad a gwblhawyd gan gontractwyr glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Roedd y staff wedi gweithio ar sail rota lle bo angen er mwyn sicrhau y gellid cadw pellter cymdeithasol yn y practis ac y gellid diogelu staff yr oedd angen iddynt hunanynysu neu warchod.[6]

[4] "Gwisgo" yw'r broses o wisgo cyfarpar diogelu personol yn ddiogel a "Diosg" yw'r broses o dynnu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel.
[5] Ystyr Cyfarpar Diogelu Personol yw cyfarpar a fydd yn diogelu'r defnyddiwr â'r claf rhag risgiau megis heintiau yn lledaenu.
[6] Ystyr Gwarchod, yng nghyd-destun pandemig COVID-19, yw dull a gyflwynwyd gan y Llywodraethau i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol, drwy ofyn iddynt beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb cymaint â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o gymorth ar gael drwy'r clwstwr lleol[7] i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn ystod y pandemig. Bu'r clwstwr mewn cysylltiad â'r practisau yn ystod y pandemig er mwyn helpu i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a chadarnhau a oedd angen rhoi canolfannau gwasanaeth ar waith.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cyfarfodydd tîm y practis wedi'u cynnal drwy MS Teams ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, ond ei bod bellach yn cael eu cynnal yn y practis, gan sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion ddefnyddio gwasanaethau'n ddwyieithog, a bod aelodau o staff clinigol ac anghlinigol sy'n siarad Cymraeg. Roedd nifer o ieithoedd eraill ar gael hefyd drwy aelodau eraill o'r staff a llinell iaith. Darparwyd gwybodaeth am frechiad COVID-19 yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[7] Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff **Clystyrau** eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG **Cymru**. Mae meddygon teulu yn y **Clystyrau**'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

*Atodiad A*

# Cynllun gwella uniongyrchol

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth:** | **Victoria Gardens** |
| **Ardal:** | **Castell-nedd, Abertawe** |
| **Dyddiad Arolygu:** | **24/06/2021** |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Heintiau** | | | | |
| **Nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod mesurau a gwiriadau rheoli heintiau cadarn a phriodol ar waith. Roedd hyn yn peri risg i'r staff a'r cleifion sy'n mynychu'r practis.**<br><br>Nid oedd amserlenni, cofnodion nac archwiliadau llawn ar gael yn y practis. Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd amserlenni glanhau na chofnodion yn cael eu cwblhau.<br><br>Cadarnhaodd rheolwr y practis, ar wahân i'r archwiliadau glanhau a gynhaliwyd gan y cwmni glanhau preifat (y diweddaraf ym mis Mai 2021), | **Safonau Iechyd a Gofal, 2.4**<br><br>**Llawlyfr Cenedlaethol ar Reoli Heintiau** | **Rydym bellach wedi rhoi amserlen/cofnod glanhau ar waith y mae ein glanhawr yn ei chwblhau/gwblhau bob nos**<br><br>**Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad golchi dwylo.  Rydym wedi** | **Rachel Griffiths**<br><br>**Allison Lloyd** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| nad oedd unrhyw archwiliadau atal a rheoli heintiau eraill yn cael eu cynnal. Roedd hyn yn cynnwys hylendid dwylo a PPE. Roedd hyn yn golygu na allai'r practis fod yn sicr bod trefniadau rheoli heintiau derbyniol ar waith.<br><br>Ni chawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i lefel dderbyniol ar atal a rheoli heintiau.<br><br>Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, dywedodd rheolwr y practis nad oedd y staff anghlinigol yn cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar atal a rheoli heintiau ar unrhyw lefel.<br><br>Cadarnhaodd hefyd nad oedd y staff anghlinigol wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar wisgo a diosg PPE. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer o'r staff hyn yn cyflawni rôl sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd, a'i bod yn ofynnol iddynt gyflawni tasgau megis glanhau a chymryd tymheredd. Er bod hyfforddiant ar PPE wedi'i ddarparu i rai aelodau o'r staff ar 24/06/2021, a hynny mewn ymateb i'r ffaith bod y mater hwn wedi'i nodi, mae angen sicrhau y caiff hyfforddiant ei ddarparu i'r holl staff sy'n weddill pan fyddant yn dychwelyd i'r practis. | | **gofyn i'n nyrs rheoli heintiau gynnal archwiliad ar hap bob mis ac archwiliadau gweledol o'r staff. Cynhelir archwiliadau swyddogol bob chwe mis hefyd. Yn absenoldeb Allison Lloyd fel Arweinydd Rheoli Heintiau, ei dirprwy fydd Lisa Thorne (Nyrs Practis). Mae arwyddion golchi dwylo hefyd yn cael eu harddangos ym mhob toiled.**<br><br>**Mae e-ddysgu ar-lein mewn Rheoli Heintiau Lefel 1 wedi dechrau. Mae pedwar aelod o'r staff wedi cwblhau'r e-ddysgu hwn a rhagwelir y bydd pob aelod o'r staff wedi ei gwblhau o fewn wyth wythnos.**<br><br>**Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar PPE.** | **Rachel Griffiths** | **8 wythnos** |
| | | | | |

*Atodiad A*

**Service / health board Cynrychiolydd y Gwasanaeth/Bwrdd Iechyd:**

| | |
|---|---|
| **Enw (priflythrennau):** | **Rachel Griffiths** |
| **Rôl:** | **Rheolwr y Practis** |
| **Dyddiad:** | **01/07/2021** |